# TECHNOLEG AMDANI!



**Mae astudio technoleg yn rhoi cefndir defnyddiol ar gyfer ystod eang o yrfaoedd - mewn dylunio, mewn gwyddoniaeth, amaethyddiaeth a garddwriaeth, y byd cyfathrebu, gweithgynhyrchu a chynhyrchu, yn ogystal â meysydd eraill.**

Mae'r sgiliau ymchwilio, cynllunio, dylunio a datrys problemau rydych yn eu datblygu yn gallu cael eu defnyddio mewn nifer o swyddi. Mae defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn tyfu'n bwysicach bob dydd yn y rhan fwyaf o feysydd gwaith. Mae mathemateg a gwyddoniaeth yn bynciau pwysig i rai gyrfaoedd technolegol, fel peirianneg.

**Yn eich bywyd bob dydd mae cyrsiau technoleg yn**

- eich dysgu sut i drin a datrys problemau mewn ffyrdd ymarferol
- eich dysgu sut i ymchwilio, cynllunio ac ystyried pethau yn ofalus
- rhoi dealltwriaeth well iddyt chi o'r byd diwydianol a sut mae pethau'n gweithio.
- rhoi cyfle iddyt chi ymarfer y defnydd o rifau bob dydd.





### Rhai ffeithiau cadarnhaol

- Oherwydd awtomeiddio ac effaith technoleg gwybodaeth, mae mwy o alw am weithwyr gyda sgiliau lefel technegydd neu uwch.
- Defnyddir cymorth cyfrifiadur (CAD) yn aml mewn dylunio ac adeiladu cynhyrchion, lle mae'n darparu lluniau 3D o eitemau - o declyn agor caniau i adeiladau newydd.
- Mae cerameg yn grŵp pwysig o ddeunyddiau peirianneg gwneuthuredig - cânt eu defnyddio, er enghraifft, mewn sythwyr gwallt ac ar wyneb y wennol ofod oherwydd eu bod yn gwrthsefyll gwres.
- Mae nifer o dechnolegwyr yn dylunio ac yn datblygu neu addasu eitemau at ddefnydd pobl ag anghenion arbennig - o ddyfeisiadau i bobl hŷn gydag arthritis yn eu dwylo i gyfrifiaduron a all droi testun yn sgwrs.

### Syniadau am swyddi yn defnyddio technoleg

Mae swyddi yn y rhan fwyaf o'r diwydiannau hyn ar bob lefel, o'r rheiny sy'n gofyn am TGAU i radd. Gallech ymwneud â gwaith ymchwil a datblygu, dylunio, y broses weithgynhyrchu (gwneud pethau), neu reoli ansawdd.

- **Mewn gweithgynhyrchu:** gweithio mewn diwydiant, yn datblygu, cynhyrchu a phrofi nwyddau sydd wedi cael eu gwneud o blastigau, metel, cerameg, gwydr, clai, pren, olew, cemegau.
- **Mewn peirianneg:** fel trydanwr neu fel technegydd/peiriannydd
- **Mewn tecstilau:** yn dylunio a gweithgynhyrchu dillad, dodrefn a llenni, a ffabrigau eraill sydd eu angen ar gyfer pethau fel hwyliau, parasiwtiau neu ganopïau.
- **Yn y diwydiant bwyd:** coginio, gweithio i gynhyrchwyr bwyd, neu weithio fel maethegydd neu economegydd y cartref.
- **Mewn gwaith crefft draddodiadol:** gwaith haearn, crochenwaith, gwneud hetiau a esgidiau.
- **Mewn addysg:** dysgu'r pwnc i'r genhedlaeth nesaf.



# TECHNOLEG AMDANI!